# Hysbyseb S4C



Byddwn yn darlledu cyngerdd arbennig gyda seren hysbysebion *Go Compare* Wynne Evans ar Sul y Mamau, pan fydd yn dychwelyd adre i Gaerfyrddin i berfformio yn Theatr y Lyric.

Dim ond un rhan o'r pecyn penwythnos am y tenor o Gaerfyrddin sydd wedi dod yn enwog fel y canwr Gio Compario yn yr hysbysebion teledu gocompare.com ydy'r cyngerdd.

Fe fydd rhaglen ddogfen yn edrych ar y canwr opera proffesiynol y tu ôl i lais pwerus y Gio dramatig. Cawn ddod i adnabod dyn sy'n caru cerddoriaeth a diwylliant yn angerddol, a hynny i raddau helaeth o ganlyniad i ddylanwad ei ddiweddar fam, Elizabeth Evans.

Dros y misoedd diwethaf, bu camerâu yn dilyn y tenor 39 oed sy'n byw yn Llanisien, Caerdydd gyda'i wraig Tanwen a'i blant, Asmay, 9 a Taliesin, 6.

## Cyfnod cyffrous

Mae'r misoedd diwetha wedi bod yn rhai cyffrous gan ei fod wedi recordio ei albwm gyntaf ym Mhrâg, Gwlad Tsiec; lansio'r albwm 'A Song in my Heart' gyda'r label recordio rhyngwladol Warner Music; perfformio mewn opera newydd yn y Royal Opera House, Covent Garden a rhyddhau sengl Nadolig ar gyfer elusen *Comic Relief*. Ar ben hynny, wrth gwrs, mae'n paratoi at y cyngerdd adre yn y Lyric.

Drwy'r cyfan, mae'r ddogfen yn portreadu dyn sydd â'i draed yn sownd ar y ddaear tra bod ei lais yn ei arwain at gydnabyddiaeth ryngwladol.

Mae ganddo agwedd hapus braf tuag at fywyd ond mae'n ddyn sy'n rhoi pwyslais mawr ar safonau uchel o berfformio. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ansawdd yr albwm a'r amrywiaeth sydd ynddo. Mae'r albwm yn enghraifft wych o ganwr clasurol yn croesi i arddull mwy poblogaidd.